

UN O bleseuau prynu llyfrau ail-law yw darganfod pwy oedd y perchennog gwreiddiol. Ni allaf gofio erbyn hyn ym mhle y prynais i gyfrol 1830 o *Seren Gomer*; gwn na sylwais yn arbennig ar yr enw y tu mewn i'r clawr ar y pryd, ond yn nes ymlaen, wrth ymchwilio i hanes David Davis, Castell Hywel, dyma ddigwydd troi i *Seren Gomer* a gweld yr enw *Timothy Davis July 2nd. 1831*, ac oddi tano No. 22. *The gift of Mrs Smart to me Timothy Davis of Evesham Decr. 1849*, a dyma sylweddoli mai mab David Davis ydoedd.

Yna daeth ysgrif Dr Brynley F Roberts i'r *Casglwr*, rhif 40, Mawrth 1990, *Llyfrau Cymraeg Evesham*, lle mae'n adrodd hanes Timothy Davis yn cyhoeddi rhai llyfrau Cymraeg yn Evesham. Yn ddiweddarach cefais achlysur i ddarllen un o ddyddiaduron Timothy Davis am 1833. Ar 9 Hydref mae'n cofnodi

This morning I observe in The Welshman N. Paper that my father's old friend and fellow student Archdeacon Beynon of Llandilo died on the 1st. Inst. in the 88th year of his age. Ministers of the Church of England were educated in my Father's time at the Dissenting Academy, Carmarthen under Dr. Jenkins, who had exhibitions to give students of the establishment. After his death it was not so. Mr. Beynon retained to the end of his life a great friendship for my father and gave substantial proof of it by handsome presents.

Hawdd credu fod anrhegion Thomas Beynon yn rhai *substantial*; clerigwr cefnog ydoedd gyda phedair eglwys mewn gwahanol blwyf o dan ei ofal, ond gwariar ei gyfrol bron i gyd ar drwsio ac ail-adeiladu'r eglwys, ar gyflogi ysgolfeistri a churadïad ac ar lyfrau, i'w blwyfolion ac iddo'i hunan.

Gwelir ei enw ar restr tanysgrifwyr i lyfrau Cymraeg y cyfnod a bu'n hael wrth feirdd a ganai yn y mesurau rhyddion. Y gynghanedd oedd ei gas beth; er hynny ef oedd llywydd Cymdeithas Cymreigyddion Caerfyrddin, a cheir hanes ei gweithgareddau yn *Seren Gomer*. Dyna gyfanu'r cylch, o'r copi sydd ar fy silff, trwy Timothy Davis a'i dad at yr Archddiacon Beynon ac yn ôl i *Seren Gomer*.

ETIFEDDAIS y gyfrol fechan *The Cambrian Biography . . . by William Owen, FSA 1803*. Credaf mai un o lyfrau y Prifathro J H Davies ydoedd. Lledr yw'r rhwymiad ac ar y tu mewn i'r clawr sgrifennwyd

Sum e libris Iohannis Williams, clerici, de Pantykelyn de comitate Carmarthen in agro Miniviensis.

John Williams, ail fab y Pêr Ganiedydd oedd hwn. Fe'i ganed yn 1754 a bu'n cadw ysgol yn Llangrallo, Morgannwg cyn mynd yn athro yn Athrofa'r Arglwyddes Huntingdon yn Nhrefeca; daeth yn

MARY ELLIS a chwe llyfr "o frid" CYFROLAU ENWOGION

brifathro'r sefydliad yn 1784. Fo gyfieithodd emyn Saesneg ei dad, 'O'er those gloomy hills of darkness . . .' i 'Dros y brynïau tywyll, niwlog . . .'. Claddwyd ef ym mynwent Llanfair ar y bryn.

William Owen Pughe oedd y William Owen diwyd a gynhyrchodd, rhwng 1789 a 1803 saith o lyfrau sylweddol, y bu'n rhaid wrth gryn lawer o waith ymchwil llafurus i'w paratoi; un ohonynt oedd ei eiriadur Cymraeg-Saesneg ynghyd â llyfr gramadeg Cymraeg.

* * * *

MAE'N BUR debyg mai eiddo J H Davies oedd y llyfr nesaf hefyd, gan ei fod ef yn un o ddisgynyddion Peter Williams. Enw *Peter Williams Coll: Jesu Oxon*. sydd oddi mewn i'r llyfr. Peter Williams y mab oedd hwn, ni fu Peter Williams yr esboniwr yn Rhydychen. Daethom i adnabod y mab fel Peter Bayley (neu Bailey) Williams, person Llanrug a Llanberis.

Ar gefn y clawr torrodd ei enw eto gyda phrif-lythrennau rhodresgar, ac ychwanegodd 'e Coll: Jesu Oxon. May 10th 1787'. Mae'n gyfrol folio gyda wyneb-ddalen addurniedig, a'r teitl yn mynnu sylw.

The Text of the New Testament of Jesus Christ translated out of the vulgar Latine by the Papiests of the traitorous Seminarie at Rhemes . . . whereunto is added the translation out of the original Greeke, commonly used in the Church of England . . . the whole worke perused and enlarged . . . by the Authors own hand before his death . . . by W. Fulke D. in Divinitie. Imprinted at London . . . Anno 1601.

Mae'r ddau gyfieithiad ochr yn ochr, gyda'r 'Glosses and Annotations as contain manifest impietie of Heresie, Treason and Slander against the Catholic Church of God and the true teachers thereof . . .

Sgrifennwyd y cyflwyniad i'r Frenhines Elizabeth yn 1580.

* * * *

UN O'R anrhegion mwyaf derbyniol a gefais erioed yw'r llyfr nesaf, a'r rhoddwr oedd y Parch Elias Hughes pan oedd yn rheithor Dolgellau. Dywedodd, yn garedig ddigon, mai fi a ddylai fod yn berchen arno. Dyma ydyw: *Grawnsypiau Canaan, neu bigion o Hymnau gan mwyaf o waith y diweddar barchedig William Williams . . . a gasglwyd gan Robert Jones. Yr ail argraffiad gyda chwanegiad. Grecsam: argraffwyd tros Cadwallader Griffith trwy ganiatâd y Parchedig Robert Jones, gan A. Tye High Street: 1811.*

Llyfr bychan ydyw, mewn rhwymiad lledr, a gludiwyd llyfrnod oddi mewn i'r clawr. Arno mae englyn a dwy ddihareb

A'r ddwy ddihareb: Gwell dysgeidiaeth na golud helaeth, a Gwell un hwde na dau addaw. Mewn inc o dan y ffrâm ceir Mary Richards Darowen.

Dyma lyfrnod Mair Richards, Darowen. Sgrifennodd ei henw yn anniben ar draws yr wyneb-ddalen, ond aneglur yw'r dyddiad, gallai fod yn 1825 neu 1835. Tueddai i dorri ei henw ar bob llawysgrif a ddigwyddai fod yn y tŷ. Credaf mai ei brawd Dafydd, Dewi Silin a gyfansoddodd yr englyn: bu ef farw ym mis Rhagfyr 1826.

Ceir y lyfrnod hefyd ar un o'i llyfrau ar gyfer copïo cerddoriaeth lle cofnododd emyn-donau a Salmau, ond mewn llyfr tebyg, lle rhoes enwau alawon yn Gymraeg a Saesneg, sgrifennodd *Rhoddd Lewis Oliver i Mary Richard, Darowen. Gwae i'r neb ai Llatratto ac ai gwertho.*

Yn 1820 rhoes Ifor Ceri ei gasgliad 'Mclus-gcingciau Deheubarth Cymru' iddi. Ynddo mae ganddo chwech ar hugain o alawon a rhai gyda geiriau ar waelod y tudalen. Telynores oedd Mair, wedi'i geni yn Llanymawddwy yn 1787. Cafodd oes hir, a bu farw ym Mryn Tanat, Llanerful yn 1877.

Robert Jones, Rhoslan a gasglodd yr emynau sydd yn Grawnsypiau Canaan. Cyhoeddwyd ef gyntaf yn 1795 a dyma'r 'llyfr emynau cyntaf ar blypudau'r Methodistiaid Calfinaidd yn y Gogledd,' yn ôl y *Bywgraffiadur Cymreig*. Emynau Williams, Pantycelyn, gan mwyaf sydd ynddo.

Cafodd Thomas Richards, tad Mair gwmni Williams yn sasiynau Llangeitho yn wyth-degau'r ddeunawfed ganrif, a chael rhai o'i lyfrau yn anrheg ganddo. Rhaid fod Mair wedi clywed ei thad yn siarad am yr emynydd; dyna brofiad!

* * * *

YR OEDD Thomas Price, Carnhuanawc yr un oed â Mair Richards. Cyhoeddwyd ei *Literary Remains* yn ddwy gyfrol yn 1854-5 wedi eu golygu gan Jane Williams, Ysgafell. Prynais hwy mewn siop lyfrau ail-law, a'r bonws a gefais oedd gweld oddi mewn y datganiad hwn:

From the Library of the late Revd. Owen Thomas D.D. Liverpool. Purchased and presented by Mr. William Thomas, Bootle, Liverpool to the Theological College Bala, December 1891.

Bûm yn chwilio'n hir am y cyfrolau hyn, ac yr oedd cael copïau a fu unwaith yn eiddo i'r Dr

Owen Thomas yn euro'r fargen. Fo oedd awdur Cofiant John Jones Talysarn (1874). Mae'r gyfrol honno gennyf ac enw Robert Jones, Hendreddwyfan, Llangwm arni. Gwnaeth 'fynegai' o'r pynciau a oedd o ddi-ddordeb iddo yn y llyfr, ac y mae'n llenwi pob tudalen weili ar ddechrau'r gyfrol.

Synhwyraf fod yna ddi-ddordeb newydd yng Ngharnhuanawc y dyddiau hyn; gwelais gyfeiriadau ato mewn cylchgronau a chlywed ei enwi ar ambell sgwrs ffugio. Yn *Seren Gomer* y defnyddiodd y ffugenw Carnhuanawc gyntaf, a dyna'r un y glynodd wrtho. Cystadlai'n gyson mewn eisteddfodau, gan ymhyfrydu mewn ffugenw-enwau amhersain megis *Gorddorbrongor* ac *Ugnach ap Mydro*. Hwyrach ei fod yn cael hwyl wrando ar y beirniaid yn eu llurgunio.

Yr oedd yr gredwr mawr ym mhwsygrwydd y wasg a chefnogai'r cyhoeddiadau Cymraeg. Anfonodd lythyr i'r wasg i annog rhieni i alw eu plant wrth enwau Cymraeg, yn lle rhai Iddewig. (Gallai rhieni heddiw fanteisio ar y cyngor hwn). Teimlai'n gryf dros greu perthynas agos rhwng y Llydawiaid a'r Cymry a bu'n gymedch i'r geiriadurwr Le Gonidec gyda'r gwaith o gyfieithu'r Beibl i'r iaith Lydewig.

* * * *

LLYFR NAD oes gennyf fawr o ddi-ddordeb yn ei gynnwys yw'r olaf ar fy rhestr. *Herodotus* Translated from the Greek . . . by the Rev. William Beloe. London 1830. Llyfr a brynodd fy ngŵr yn ail-law adeg ei ddyddiau coleg — (y clasuron oedd ei bwnc) ydoedd a sylweddoli wedyn pwy oedd y perchennog gwreiddiol.

D S Evans 1845 sydd ar un dudalen ac ar y nesaf D S Evans St David's College Lampeter May 7 1846. Daniel Silvan Evans ydoedd; cymerodd ei enw canol oddi wrth ei dad, Silvanus Evans o Lanarth yng Ngheredigion.

Fe'i ganed yn 1818 a bu'n fyw hyd 1903, felly tueddwn i feddwl amdano fel gŵr o ddiwedd y ganrif ddiwethaf. Yn 1843 cyhoeddodd gyfrol o gerddi, *Blodau Ieuainc* dan yr enw Daniel Las o Geredigion—yr oedd yno un Du yn barod — ac ymhlith y tanysgrifwyr ceir enwau Carnhuanawc a'r Fonesig Charlotte Guest.

Yn 1847 ymddangosodd Telynegion, yr enghraifft gyntaf o'r gair. Yn 1845-6 y bu'n fyfyrwr yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr, a'r flwyddyn wedyn penodwyd ef yn ddarlithydd yn y Gymraeg.

Ni wyddai beth oedd segurdd; heblaw ei waith geiriadurrol, golygodd *Llyfryddiaeth y Cymry*, Gwilym Lleyn, golygodd *Y Brython*, cyfieithodd destunau *The Four Ancient Books of Wales* ar gyfer W F Skene, a'u cyhoeddodd yn 1868, a bu'n rhannol gyfrifol am argraffiad arbennig o'r Llyfr Gweddi Cyffredin ac Emyniadur yr Eglwys yng Nghymru ac nid dyna'r cyfan, o bell ffordd.